# COFNODION CYFARFOD O FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU / GROWING MID WALES BOARD A GYNHALIWYD AR ZOOM DDYDD LLUN, 16 HYDREF 2023

## YN BRESENNOL

**Aelodau Cyngor Sir Ceredigion:**
Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth **(BD)**
Cynghorydd Catrin M S. Davies, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid **(CMSD)**
Cynghorydd Keith Henson, Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon **(KH)**

**Aelodau Cyngor Sir Powys:**
Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd **JGW) (Cadeirydd)**
Cynghorydd Aled Davies **(AD)**
Cynghorydd Matthew Dorrance, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Bowys Decach **(MD)**
Cynghorydd David Selby, Aelod Cabinet dros Bowys Fwy Ffyniannus **(DS)**

**Swyddogion:**
Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Sir Ceredigion **(BR)**
Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu, Cyngor Sir Ceredigion **(EP)**
Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Ceredigion **(LE)**
Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael, Cyngor Sir Ceredigion **(DH)**
Carwyn Jones-Evans, Arweinydd Strategol ar y Cyd, Tyfu Canolbarth Cymru/Cyngor Sir Ceredigion **(CJE)**
Clive Pinney, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Cyngor Sir Powys **(CP)**
Cathy Martin, Rheolwr Gweithrediadau, Tyfu Canolbarth Cymru **(CM)**
Nigel Brinn, Cyfarwyddwr Gweithredol yr Economi a'r Amgylchedd, Cyngor Sir Powys **(DS)**
Dave Owen, Rheolwr y Rhaglen Ddigidol, Tyfu Canolbarth Cymru **(DO)**
John Collingwood, Rheolwr y Rhaglen Safleoedd ac Adeiladau, Tyfu Canolbarth Cymru **(JC)**
Emma Palmer, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Powys **(EP)**
David Price, Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (RSP) **(DP)**
Ffion Lloyd, Cyfreithiwr, Cyngor Sir Ceredigion **(FL)**
Angharad Massow, Swyddog Cyfathrebu, Tyfu Canolbarth Cymru **(AM)**
Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Yr Economi ac Adfywio, Cyngor Sir Ceredigion **(RHP)**

**Sylwedyddion y Llywodraeth:**
Gareth Ashman, Pennaeth Twf Rhanbarthol a Lleol, Llywodraeth y DU, Cymru
Ann Watkin, Pennaeth Strategaeth, Cysoni Gweithrediadau a Chynllunio, Llywodraeth Cymru
John Hawkins, Llywodraeth y DU, Cymru

| 1. | CROESO AC YMDDIHEURIADAU / WELCOME AND APOLOGIES |
|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Diane Reynolds Cyfarwyddwr Dros Dro yr Economi a Gwasanaethau Cymunedol CSP a Nicola Williams Rheolwr Strategol Cyflawni Rhaglenni *CJC*.

| 2. | DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL / DECLARATIONS OF PERSONAL INTEREST |
|---|---|

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

| 3. | COFNODION DRAFFT Y CYFARFOD DIWETHAF / DRAFT MINUTES OF THE LAST MEETING 23/6/2023 |
|---|---|

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2023 yn gofnod cywir.

| 4. | PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL CANOLBARTH CYMRU / MW REGIONAL SKILLS PARTNERSHIP |
|---|---|

Rhoddodd David Price, Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, ddiweddariad am y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r camau arfaethedig canlynol:

1. Sefydlu clystyrau'r sector busnes:
    - Iechyd a Gofal Cymdeithasol
    - Twristiaeth
    - Ynni
    - Y sector cyhoeddus
    - Cludiant
    - Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod
    - Digidol
    - Menter
    - Ymchwil Cymhwysol ac Arloesi
    - Cyflogaeth a Sgiliau

   Yn ogystal â dau Grŵp Clwstwr Cefnogol:
    - Darparwyr
    - Gwarant Pobl Ifanc

2. Coladu a dadansoddi data a Gwybodaeth am y Farchnad Lafur i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn berthnasol.

3. Sicrhau bod gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn weladwy ac yn dryloyw trwy greu gwefan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

4. Ailstrwythuro bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, gan leihau aelodaeth o 49 i 24, y byddai 12 ohonynt yn gadeiryddion y 12 grŵp clwstwr, gan sicrhau y byddai o leiaf 8 yn gyflogwyr yn y sector preifat. Byddai gweddill y bwrdd yn gynrychiolwyr ymgynghorol o wahanol sefydliadau perthnasol, gan gynnwys y ddau Gyngor, Addysg Uwch, Addysg Bellach, Gyrfa Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Eglurodd Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol y byddai’r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn ceisio gwella mynediad at gyfleoedd hyfforddi ac addysg yn Gymraeg ac yn ymdrin â'r prinder staff sy'n siarad Cymraeg mewn rolau sy'n delio â chwsmeriaid.

Cadarnhaodd y byddai’r undebau ffermio yn cael eu cynrychioli ar y Grŵp Clwstwr Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod ac y byddent trwy hynny yn cael eu cynrychioli ar y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Cytunodd Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gyda sylwadau’r Cadeirydd fod angen gwell arweiniad am yrfaoedd a chyfleoedd gwell ar gyfer profiad gwaith.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan y Cynghorydd James Gibson-Watt ac yna

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo’r gweithgareddau newydd y mae’r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn eu cynnig i'w cyflawni.**
2. **Cymeradwyo ailstrwythuro Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.**

| 5. | CYLLID / FINANCE |
|---|---|

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad y Swyddog Adran 151. Datganodd mai’r gwariant ar gyfer 2022/23 oedd £61,179, sef tanwariant o £138,821. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod cyllid WEFO yn dal i fod ar gael, y defnyddiwyd cymaint â phosibl ohono. Felly, roedd y cyfraniadau terfynol yr oedd eu hangen gan Gynghorau Sir Ceredigion a Phowys yn llawer is na'r hyn a gyllidebwyd, sef £30,590 yr un.

Roedd cyllid Blwyddyn 1 o £4,000,000 wedi dod i law ddiwedd mis Medi 2023. Roedd yr adroddiad yn nodi’r proffil ariannu tybiedig dros 15 mlynedd y Cynllun Twf.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi dull gweithredu arfaethedig ar gyfer penderfynu pa gostau Datblygu Prosiectau a fyddai’n cael eu hystyried yn gymwys ar gyfer defnyddio cyllid y Cynllun Twf. Ni fyddai unrhyw Brosiect yn cael cyllid y Cynllun Twf yn ffurfiol nes iddo gyrraedd y cam Achos Busnes Llawn (FBC) yn llwyddiannus a’i fod wedi hynny wedi derbyn cymeradwyaeth gan Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru.

Cynigiwyd ac eiliwyd ac yna

**PENDERFYNWYD**

1. **Nodi sefyllfa Alldro 2022/23 ar gyfer Cyllideb TCC, fel yr amlinellwyd yn adran 1 yr adroddiad.**

2. **Nodi'r diweddariad ynghylch Cyllid Bargen Twf Canolbarth Cymru Blwyddyn 1 a'r proffil ariannu 15 mlynedd cyfredol, fel yr amlinellwyd yn adran 2 yr adroddiad.**

3. **Cytuno ar yr egwyddorion ar gyfer caniatáu i arian y Cynllun Twf gael ei ddefnyddio ar gyfer costau Datblygu Prosiectau, fel yr amlinellwyd yn adran 3 yr adroddiad.**

| 6. | Y RHAGLEN DDIGIDOL / DIGITAL PROGRAMME |
|---|---|

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i fersiwn wedi'i diweddaru o Achos Busnes y Rhaglen. Roedd Achos Busnes y Rhaglen yn cydnabod bod Seilwaith Digidol yn elfen hanfodol ar gyfer twf economaidd ac o'r herwydd mae blaenoriaethau'r Rhaglen yn parhau i ganolbwyntio ar gysylltedd sefydlog a symudol. Roedd disgwyl i'r rhaglen gostio tua £15m dros y 10 mlynedd nesaf, gan ddychwelyd amcangyfrif o £120 miliwn mewn buddion net i economi'r rhanbarth.

Cynhaliwyd Adolygiad Sicrwydd o'r Rhaglen Ddigidol yng nghanol mis Medi gan ganolbwyntio'n bennaf ar y llywodraethu a'r prosesau presennol a'u haddasrwydd i sicrhau'r ddarpariaeth. Mae'r Rhaglen wedi derbyn gradd Ambr.

Nid oedd dau brosiect a amlygwyd i'w blaenoriaethu yn ystod drafft cychwynnol Achos Busnes y Rhaglen, a) Prosiect Safleoedd Cyflogaeth Strategol a b) Prosiect Safleoedd Hyb Tai Cymdeithasol yn cael eu datblygu gan fod risg o ddyblygu gyda mentrau'r Llywodraeth a fyddai'n gweld buddsoddiad sylweddol mewn darpariaethau band eang a symudol yn y Canolbarth.

Roedd nifer o brosiectau a nodwyd wedi symud ymlaen drwy'r model blaenoriaethu a chraffwyd arnynt gan Fwrdd y Rhaglen Ddigidol er mwyn eu symud ymlaen i Achos Busnes Amlinellol (OBC), ac yn ddiweddarach Achos Busnes Llawn (FBC) i'w cyflwyno i Fwrdd TCC (GMW) drwy'r Bwrdd Cyflawni Portffolio.

Roedd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y Prosiect Anodd Iawn ei Gyrraedd (prosiect VHTR) wedi'i ddatblygu ac awgrymwyd y dylai'r Rhaglen barhau i ystyried rhaglenni eraill a ariennir yn gyhoeddus ac yn fasnachol cyn penderfynu pa ymyriadau fyddai'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau i wella darpariaeth band eang ar draws y Rhanbarth. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi cynllunio ymyriadau yn yr ardal, sef Prosiect Gigabit a fydd yn gweld o leiaf £30 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn y Rhanbarth dros y blynyddoedd i ddod a phrosiect VHTR LIC ei hun a fydd yn targedu hyd at 70,000 eiddo ledled Cymru gyda buddsoddiad o £70 miliwn.

Roedd ymgysylltu â'r farchnad wedi digwydd gyda Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol (MNOs). Roedd yn ymddangos ar ôl cwblhau Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN) Llywodraeth y DU y byddai ardaloedd ar draws Canolbarth Cymru na fyddent yn gweld unrhyw welliannau yn y ddarpariaeth symudol, felly mae angen ymyrraeth gan Dwf Canolbarth Cymru. Roedd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect a cheisio penderfynu ar y dull gorau o sicrhau'r ddarpariaeth symudol orau a'r capasiti mwyaf ar draws Canolbarth Cymru yn cael ei ddatblygu.

Roedd y Llywodraeth yn bwriadu dechrau contract ym mis Gorffennaf 2024 ar gyfer y rhan fwyaf o Bowys a gogledd Ceredigion, gyda de Powys rai misoedd yn ddiweddarach. Roedd BT Openreach yn bwriadu cysylltu 70,000 eiddo erbyn 2026. Byddai ymgynghorydd yn cael ei gaffael i gynnal ymarferiad mapio i helpu i ddarparu gwell dealltwriaeth o'r prosiectau arfaethedig.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi sylw i Gofrestr Risg a Phroblemau'r Rhaglen. Byddai Risgiau a Phroblemau yn parhau i gael eu rheoli trwy'r rhaglen ffurfiol a rheolaethau ar y prosiectau, yn unol â dull Portffolio TCC.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo'r argymhelliad i gymeradwyo Achos Busnes y Rhaglen Ddigidol wedi'i ddiweddaru (f0.22).**
2. **Cefnogi'r cais i awdurdodi symud y Prosiectau a nodwyd o fewn y Rhaglen Ddigidol i Achos Busnes Amlinellol yn eu blaenau.**

| 7. | UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS |
|---|---|

Dim

| 8. | DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF / DATES OF FUTURE MEETINGS |
|---|---|

26 Ionawr 2024

| 9. | EITHRIO'R CYHOEDD / EXCLUSION OF THE PUBLIC |
|---|---|

**PENDERFYNWYD gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath, yn unol ag Adran 100B(2) y Ddeddf.**

| 10. | Y RHAGLEN SAFLEOEDD AC EIDDO / SITES & PREMISES PROGRAMME |
|---|---|

Ystyriodd y Bwrdd Achos Busnes y Rhaglen Safleoedd ac Adeiladau.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo Achos Busnes y Rhaglen, Fersiwn 3.1 a chadarnhau rhoi awdurdod i Fwrdd y Rhaglenni Safleoedd ac Adeiladau symud ymlaen â'r Rhaglen i'r Cam Cyflawni.**

2. **Cadarnhau rhoi Awdurdod i'r Prosiect i gymryd y camau dechreuol gyda safleoedd y Rhaglen sydd wedi dod i'r brig gyda'r ddau Bartner Prosiect perthnasol a restrir yn yr adroddiad.**

3. **Cymeradwyo bod Bwrdd y Rhaglen Safleoedd ac Adeiladau yn archwilio ac yn cytuno ar drefniant gwaith ffurfiol gyda Phartneriaid y Prosiect i gael eu hymrwymiad pellach i nodau ac amcanion y Rhaglen Safleoedd ac Adeiladau a'i hallbynnau a'i chanlyniadau gofynnol.**

4. **Cymeradwyo Protocol Rheoli Newid y Rhaglen i'w ddefnyddio wrth ystyried newid cwmpas yn y dyfodol, pe bai'n digwydd, ac archwilio rhinweddau lansio gwaith pellach a / neu ystyried safleoedd amgen ar gyfer cyflenwi o dan y Rhaglen Safleoedd ac Adeiladau.**

5. **Cymeradwyo'r egwyddor o gynnal gweithgaredd gwybodaeth marchnad pellach ar lefel rhaglen yn ystod y Cam Cyflawni i sicrhau bod pob safle'n parhau'n hyfyw, gan ddatblygu Strategaeth Farchnata glir ar y cyd â Phartneriaid Prosiect.**

6. **Cymeradwyo rhoi Awdurdod i'r Prosiect i gymryd y camau cyntaf yn y gwaith o ddatblygu Achos Busnes Prosiect ar gyfer "Cronfa Ymyrraeth Leol" i gefnogi datblygiad a arweinir gan y sector preifat mewn safleoedd Marchnad Leol sydd y tu allan i gwmpas y Rhaglen Strategol, gan ymateb i amcanion ehangach y Flaenoriaeth Cefnogi Twf Menter.**

| 11. | BARGEN TWF CANOLBARTH CYMRU / MW GROWTH DEAL |
|---|---|

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad diweddaru ar gynnydd a'r camau nesaf yn ymwneud â Bargen Twf Canolbarth Cymru a chrynodeb o asesiadau ac argymhellion Achosion Amlinellol Strategol y Prosiect.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad diweddaru.**

2. **Cymeradwyo argymhellion Tîm y Swyddfa Rheoli Portffolio a'r Bwrdd Cyflawni Portffolio yn dilyn asesu prosiectau'r Cynllun Twf fel y nodir yn Eitemau 12 a 13.**

**Cynghorydd Sir Bryan Davies**
**Cadeirydd**